Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwyniad

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch ceisiadau tai / trosglwyddo. Dylid ei darllen gyda'r llyfryn sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol ar gael yma. Efallai y byddwch hefyd am ddarllen ein taflen ar ddigartrefedd a allai fod yn berthnasol.

Rhaid i gynghorau a chymdeithasau tai fod â pholisi ysgrifenedig yn egluro sut y byddant yn cynnig eu tai drwy ystyried anghenion y person.

Mae gofynion cyfreithiol mwy llym ar y Cyngor, e.e. mae rhai pobl y mae'n rhaid i'r Cyngor roi blaenoriaeth resymol iddynt gan gynnwys: pobl ddigartref; pobl sy'n byw mewn tai wedi eu gorlenwi neu sy'n anaddas; pobl sydd ag anghenion meddygol neu anableddau arbennig; mae hyn hefyd yn berthnasol i drosglwyddo.

Gall cymdeithasau tai fod yn fwy hyblyg o ran i bwy y maent yn cynnig llety iddynt, e.e. medrant wrthod cynnig tŷ ichi os oes arnoch ddyledion rhent i landlord arall. Yn fwyfwy, fodd bynnag, mae cymdeithasau tai a'r cyngor lleol yn gweithredu polisi cyffredin ar ddyrannu eiddo.

Bydd polisi'r Cyngor neu'r gymdeithas dai yn egluro sut y bydd yn penderfynu pwy sy'n cael cynnig tŷ yn gyntaf, e.e. cynllun pwyntiau; cynllun bandiau / cwotâu; neu system fidio am dai arbennig.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu:

- edrych i weld a ddeliwyd yn briodol â'ch cais am dŷ;
- edrych i weld a ydyw'r Cyngor neu'r gymdeithas dai wedi cymhwyso eu polisi i'ch cais am dŷ yn gywir, e.e. a ydych yn y band cywir;
- edrych i weld a ddywedodd y Cyngor neu'r gymdeithas dai wrthych sut y deliodd â'ch cais am dŷ, e.e. a ydyw wedi anfon llythyr atoch gyda manylion unrhyw bwyntiau a roddwyd ichi;

- edrych i weld a wnaeth y Cyngor neu'r gymdeithas dai oedi wrth ddelio â newidiadau yn eich sefyllfa ar ôl cael gwybod gennych, e.e. lle gofynnwyd ichi adael eich cartref;
- edrych i weld pam y cafodd eich cais efallai ei ohirio, e.e. a ydyw'r Cyngor wedi dilyn y weithdrefn gywir os mai eich ymddygiad oedd y rheswm dros ohirio eich cais.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Nid fydd yn gallu:

- gorfodi'r Cyngor / Cymdeithas Dai i roi tŷ ichi, neu unrhyw dŷ arbennig sydd ei eisiau arnoch.
- newid penderfyniad a wnaed yn briodol ynghylch eich cais am dŷ.

Materion i gadw mewn cof

- Nid oes digon o dai i bawb sydd eisiau un.
- Efallai y bydd y polisi'n cyfyngu ar faint o gynigion y gellir eu gwneud ichi neu gyfyngu ar yr ardaloedd y gallwch eu dewis ar eich cais am dŷ.

Gwybodaeth bellach

Efallai y byddwch am ystyried cysylltu â'r mudiadau canlynol am gyngor:

Shelter Cymru sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar dai. Gallwch eu ffonio ar **0345 075 5005** neu fynd i'w gwefan yn http://www.sheltercymru.org.uk.

Cyngor ar Bopeth Cymru sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys tai). Gallwch gysylltu â nhw drwy fynd ar y we yn www.citizensadvice.org.uk (a dewis opsiwn tudalen 'Cymru') a chofnodi eich cod post i gael manylion ar sut i gysylltu â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol agosaf.

Efallai y bydd eich **Aelod Cynulliad lleol** yn gallu cynnig cyngor a chymorth hefyd.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro. Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon.cymru.

Cysylltwch â ni

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni.

Hawdd ei Ddarllen

Dyraniad Tai

Lawrlwytho

Mae’r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.

Holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203 Mae ein llinell ffôn ar agor rhwng 10yb-4yp